BWRDD DIOGELU CANOLBARTH A GORLLEWIN CYMRU

# CYSUR a CWMPAS

THE MID & WEST WALES SAFEGUARDING BOARD

CYNLLUN BLYNYDDOL | ANNUAL PLAN

## *2023–24*

**CYFLWYNIAD**

Mae CYSUR: Bwrdd Diogelu Plant Canolbarth a Gorllewin Cymru a CWMPAS: Bwrdd Diogelu Oedolion Canolbarth a Gorllewin Cymru yn falch o gyhoeddi a chyflwyno ei seithfed cynllun strategol blynyddol ar y cyd ar gyfer 2023–24. Yn fy marn i, mae CYSUR a CWMPAS yn parhau i fod yn ffynhonnell gyson o gryfder wrth hybu arferion diogelu rhanbarthol a chenedlaethol. Mae'r cynllun hwn yn adeiladu ar y sylfaen gref sydd gennym fel Bwrdd.

Rydym wedi llunio cynllun a rhaglen waith uchelgeisiol, sy'n adeiladu ar ein llwyddiannau y llynedd, gan ymgorffori'r hyn a ddysgwyd o'r pandemig, ac ymdrechu tuag at ddiwylliant o arloesedd ac arferion gorau. Eleni, rydym wedi mynd â'r gwaith hwn gam ymhellach drwy gytuno ar bedair blaenoriaeth strategol newydd yn ein cynllun.

Un amcan allweddol a nodir yn y cynllun eleni yw defnyddio ein partneriaeth amlasiantaeth gref i ddatblygu mentrau newydd cyffrous mewn ymateb i'r heriau parhaus sy'n gysylltiedig â'r mater cenedlaethol o recriwtio a chadw'r gweithlu diogelu. Credwn fod ein hymdrechion yn ystod pandemig COVID-19 yn dangos y canlyniadau a gyflawnir gennym pan fyddwn yn gweithio yn gydweithredol. Edrychaf ymlaen at archwilio'r posibiliadau y bydd y fenter strategol hon yn eu gwneud ar gael inni.

Rydym yn parhau i fod yn ymwybodol iawn o'r risg sy'n bresennol mewn gwaith diogelu ar draws yr holl asiantaethau, ac mae heriau cymhleth sy'n effeithio ar y sector cyhoeddus i gyd ar hyn o bryd. Felly, rydym wedi nodi cynllun i ddatblygu offer a dulliau greddfol ar gyfer nodi ac ymateb i risg cyn gynted â phosibl. Ein nod wrth fwrw ymlaen â'r gwaith hwn yw y gellir nodi ac ymateb i risg cyn y gall effeithio ar yr ymateb diogelu a ddarperir i blant ac oedolion sydd mewn perygl yn ein rhanbarth. I'r perwyl hwn, amcan arall a nodir eleni yw ymgorffori ymhellach brofiadau bywyd y bobl yr ydym yn ymdrechu i'w diogelu rhag camdriniaeth, esgeulustod a mathau eraill o niwed ym mhob trafodaeth Bwrdd a bod y Bwrdd cyntaf yng Nghymru sydd ag aelod sy'n cynrychioli defnyddwyr.

Rwyf yn falch o ddweud eleni y bydd y Bwrdd hwn hefyd yn darparu cefnogaeth helaeth i'r agenda diogelu cenedlaethol, drwy arwain datblygiad Fframwaith Dysgu a Datblygu yr Adolygiad Diogelu Unedig Sengl i ymgorffori model dysgu cynhwysfawr sy'n cadw'r diwylliant peidio â beio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a ddatblygwyd gennym yn ein model Adolygu Arferion presennol.

Yn ystod y flwyddyn flaenorol, gwelwyd ymadawiad Cadeirydd Bwrdd CWMPAS Jonathan Griffiths, sydd wedi llywio pwyslais gwaith y Bwrdd ar oedolion am y 5 mlynedd ddiwethaf. Dymunwn lwyddiant i Jonathan yn ei yrfa yn y dyfodol a diolchwn iddo am ei ymroddiad, ac rydym yn cydnabod y cyfraniad enfawr y mae wedi ei wneud at lywio Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru.

Nid oes amheuaeth na fydd yr ethos hirsefydlog o gydweithredu a gweithio partneriaeth cryf ar draws asiantaethau yn ein rhanbarth yn ffynhonnell barhaus o gryfder wrth inni wneud cynnydd a chyflawni ein hamcanion gyda'n gilydd.





**Jake Morgan, Cadeirydd CYSUR a CWMPAS**

## EIN GWELEDIGAETH

Gweledigaeth Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru yw bod pawb yn y rhanbarth yn byw eu bywydau heb drais, cam-drin, esgeulustod a cham-fanteisio, a bod eu hawliau yn cael eu diogelu. Mae’r holl waith diogelu yn sensitif o ran gwahaniaethau mewn hil, ethnigrwydd, diwylliant, gallu, ffydd a chyfeiriadedd rhywiol ac fe’i gwreiddir yn y rhain. Mae’n hanfodol ymgysylltu ag anghenion yr holl randdeiliaid, gan gynnwys plant, pobl ifanc, oedolion sydd mewn perygl, eu teuluoedd, eu gofalwyr, darparwyr y gwasanaethau a’r gymuned ehangach, gan fod yn ymatebol iddynt, er mwyn hybu gweledigaeth y Bwrdd.

## Aelodaeth Bwrdd Gweithredol Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru

| **CWMPAS<br>(Bwrdd Gweithredol Diogelu Oedolion)** | **CYSUR<br>(Bwrdd Gweithredol Diogelu Plant)** |
|---|---|
| **Jake Morgan (Cadeirydd)**<br>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymunedol,<br>Cyngor Sir Caerfyrddin | |
| **Jayne Butler (Is-gadeirydd)**<br>Ditectif Uwch-arolygydd,<br>Heddlu Dyfed-Powys | **Sian Passey (Is-gadeirydd)**<br>Cyfarwyddwr Nyrsio Cynorthwyol Sicrwydd a Diogelu Nyrsio Corfforaethol,<br>Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda |
| **Jake Morgan**<br>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymunedol,<br>Cyngor Sir Caerfyrddin | **Michael Gray**<br>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol,<br>Cyngor Sir Penfro |
| **Audrey Somerton-Edwards**<br>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Interim,<br>Cyngor Sir Ceredigion | **Audrey Somerton-Edwards**<br>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Interim,<br>Cyngor Sir Ceredigion |
| **Nina Davies**<br>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol,<br>Cyngor Sir Powys | **Nina Davies**<br>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol,<br>Cyngor Sir Powys |
| **Sian Passey**<br>Cyfarwyddwr Nyrsio Cynorthwyol Sicrwydd a Diogelu Nyrsio Corfforaethol,<br>Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda | **Jayne Butler**<br>Ditectif Uwch-arolygydd,<br>Heddlu Dyfed-Powys |
| **Avril Bracey**<br>Pennaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion,<br>Cyngor Sir Caerfyrddin | **Jan Coles**<br>Pennaeth Gwasanaethau i Blant,<br>Cyngor Sir Caerfyrddin |
| **Donna Pritchard**<br>Dirprwy Gyfarwyddwr Gwasanaethau, Cymdeithasol a Swyddog Arweiniol Corfforaethol, Porth Gofal,<br>Cyngor Sir Ceredigion | **Donna Pritchard**<br>Dirprwy Gyfarwyddwr Gwasanaethau, Cymdeithasol a Swyddog Arweiniol Corfforaethol, Porth Gofal,<br>Cyngor Sir Ceredigion |
| **Jason Bennett**<br>Pennaeth Gwasanaethau Oedolion,<br>Cyngor Sir Penfro | **Darren Mutter**<br>Pennaeth Gwasanaethau Plant,<br>Cyngor Sir Penfro |
| **Gwag**<br>Pennaeth Gwasanaethau Oedolion,<br>Cyngor Sir Powys | **Sharon Powell**<br>Pennaeth Gwasanaethau Plant,<br>Cyngor Sir Powys |
| **Christine Harley**<br>Prif Weithredwr Cynorthwyol,<br>Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol | **Christine Harley**<br>Prif Weithredwr Cynorthwyol,<br>Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol |
| **Mandy Rayani**<br>Cyfarwyddwr Nyrsio, Ansawdd a Phrofiad y Claf,<br>Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda | **Mandy Rayani**<br>Cyfarwyddwr Nyrsio, Ansawdd a Phrofiad y Claf,<br>Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda |

| | |
|---|---|
| **Mandy Nichols-Davies**<br>Pennaeth Diogelu Oedolion a Phlant (Nyrs a Enwir),<br>Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda | **Mandy Nichols-Davies**<br>Pennaeth Diogelu Oedolion a Phlant (Nyrs a Enwir),<br>Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda |
| **Jayne Wheeler-Sexton**<br>Cyfarwyddwr Cynorthwyol Diogelu,<br>(Nyrs a Enwir),<br>Bwrdd Iechyd Addysgu Powys | **Jayne Wheeler-Sexton**<br>Cyfarwyddwr Cynorthwyol Diogelu,<br>(Nyrs a Enwir),<br>Bwrdd Iechyd Addysgu Powys |
| **Claire Roche**<br>Cyfarwyddwr Nyrsio a Bydwreigiaeth<br>Bwrdd Iechyd Addysgu Powys | **Claire Roche**<br>Cyfarwyddwr Nyrsio a Bydwreigiaeth<br>Bwrdd Iechyd Addysgu Powys |
| **Linda Davies**<br>Nyrs Ddynodedig, Tîm Diogelu Cenedlaethol (GIG Cymru),<br>Iechyd Cyhoeddus Cymru | **Linda Davies**<br>Nyrs Ddynodedig, Tîm Diogelu Cenedlaethol (GIG Cymru),<br>Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| **Nikki Harvey**<br>Pennaeth Diogelu,<br>Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru | **Nikki Harvey**<br>Pennaeth Diogelu,<br>Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru |
| **Hazel Lloyd-Lubran**<br>Cynrychiolydd Rhanbarthol y Trydydd Sector,<br>Cymdeithas Sefydliadau Gwirfoddol Ceredigion (CSGC) | **Hazel Lloyd-Lubran**<br>Cynrychiolydd Rhanbarthol y Trydydd Sector,<br>Cymdeithas Sefydliadau Gwirfoddol Ceredigion (CSGC) |
| **Chris Harrison**<br>Cynrychiolydd Rhanbarthol Penaethiaid Comisiynu | **Steve Davis**<br>Cynrychiolydd Rhanbarthol Rheolwyr Cyfiawnder Ieuenctid |
| | **Cyfarwyddwyr Addysg Rhanbarthol**<br>Aelodaeth gylchol o Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Phowys |
| | **Dr Ingrid Prosser**<br>Meddyg Enwebedig, Amddiffyn Plant<br>Bwrdd Iechyd Addysgu Powys |
| | **Dr Damitha Ratnasinghe**<br>Meddyg Enwebedig, Amddiffyn Plant<br>Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda |

## Uned Fusnes Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru

| |
|---|
| **Julie Breckon**<br>Rheolwr y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol |
| **Rebecca Reynolds**<br>Rheolwr Busnes ar gyfer Adolygu Arferion |
| **Theresa Welch**<br>Swyddog Datblygu Busnes |
| **Stuart Hicks**<br>Cydgysylltydd Busnes |

## CANLYNIADAU BLAENORIAETH STRATEGOL A NODWYD AR GYFER 2023–24

1. **Datblygu diwylliant o gydweithredu ac arloesedd ledled y bartneriaeth, sy'n hybu gweithlu diogel, medrus a chydnerth.**
2. **Mesur, dangos a deall effaith gwaith y Bwrdd hwn ar arferion proffesiynol, a sut mae hyn yn gwella canlyniadau i blant ac oedolion sydd mewn perygl.**
3. **Ymgymryd â dadansoddiad systemig o'r perfformiad sefydliadol a newid i ddeall yn well ei effaith ar blant ac oedolion sydd mewn perygl.**
4. **Parhau i ddylanwadu ar yr agenda strategol genedlaethol er mwyn cefnogi gwelliannau mewn deddfwriaeth, canllawiau a pholisïau diogelu, gan gyfrannu atynt.**

Rhestrir sut rydym yn bwriadu cyflawni'r canlyniadau hyn a'r crynodeb o'r gwelliannau yr ydym yn bwriadu eu gwneud i'n galluogi i gyflawni ein hamcanion yn ein Cynllun Busnes isod.

| 1. Datblygu diwylliant o gydweithredu ac arloesedd ledled y bartneriaeth, sy'n hybu gweithlu diogel, medrus a chydnerth. | | |
|---|---|---|
| **Maes blaenoriaeth** | **Yr hyn yr ydym yn dymuno ei gyflawni** | **Beth yw'r dangosyddion canlyniadau?** |
| **1.1 Datblygu Dulliau Cydweithredol o Ddiogelu'r Gweithlu** | Nodi cyfleoedd i gydweithredu'n rhanbarthol ar strategaethau sy'n canolbwyntio ar recriwtio, cadw a thwf. | Bydd recriwtio gweithwyr diogelu proffesiynol yn fwy cydlynol yn rhanbarthol, gan arwain at leihau cystadleuaeth yn y rhanbarth. |
| | | Sefydlir cytundebau partneriaeth sy'n hwyluso'n well dulliau cydweithredol o ymdrin â'n gweithlu. |
| | Ystyried a datblygu atebion creadigol ac arloesol i'r heriau sylweddol yng nghyd-destun recriwtio a chadw staff ar draws y gweithlu gofal cymdeithasol. | Nodir a datblygir cydflaenoriaethau clir ac wedi eu targedu y gweithlu. |
| | Ystyried canlyniad ac argymhellion cydadolygiad y gweithlu a gynhaliwyd yn 2022/23 â Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol Gorllewin Cymru, a pha gamau y mae angen eu gweithredu ar draws y partneriaethau. | |
| | Nodi strategaethau i leihau defnydd a dibyniaeth ar staff asiantaeth yn y gweithlu gofal cymdeithasol. | Bydd nifer yr aelodau o staff asiantaeth a gyflogir yn y rhanbarth yn cael ei leihau. |
| | Ystyried ffyrdd y gallwn hwyluso'r ddarpariaeth o gymorth rhyngasiantaeth i deuluoedd sydd ag anghenion cymhleth, lefel uchel ar draws ffiniau ac olion traed awdurdodau lleol. | Nodir cyfleoedd i rannu adnoddau pan fo hynny'n gymesur ac yn fuddiol er mwyn rhoi cefnogaeth arloesol i deuluoedd sydd mewn angen sylweddol. |
| **1.2 Rhannu a hyrwyddo arferion da ar draws y bartneriaeth amlasiantaeth ranbarthol** | Ystyried a datblygu fforymau i alluogi asiantaethau/mannau i rannu arferion ac atebion arloesol yn rhanbarthol. | Bydd partneriaid amlasiantaeth, a'r Bwrdd yn ei gyfanrwydd, yn elwa o'r wybodaeth a'r profiadau a rennir gan gydweithwyr sydd wedi gweithredu arferion arloesol. |

| | | |
|---|---|---|
| **1.3 Hyfforddiant Diogelu Rhanbarthol** | Gweithredu'r Safonau Hyfforddiant Cenedlaethol newydd ar draws holl asiantaethau y Bwrdd. | Bydd y Safonau'n cael eu cymhwyso'n gyson ac yn effeithiol ar draws yr holl asiantaethau partner yn y rhanbarth. |
| | | Cymhwysir y Safonau i'r holl hyfforddiant diogelu rhanbarthol a gynigir. |
| | Datblygu Fframwaith sy'n mesur ac yn asesu ansawdd hyfforddiant diogelu a'r graddau y mae ar gael i ymarferwyr amlasiantaeth. | Bydd y Bwrdd yn sicrhau bod ymarferwyr yn gallu cael hyfforddiant diogelu o ansawdd uchel sy'n diwallu eu hanghenion dysgu a datblygu fel y gallant ddiogelu plant ac oedolion sydd mewn perygl yn effeithiol. |
| | Dyfeisio Cynllun Hyfforddi wedi'i ddiweddaru sy'n adlewyrchu blaenoriaethau hyfforddiant diogelu yn y tymor byr a'r tymor hwy. | Bydd yr Is-grŵp Hyfforddi'n cytuno ar gynllun gwaith clir i fesur yr hyn a gyflawnir. |
| **1.4 Cydnabod Arferion Rhagorol** | Gwreiddio seremoni wobrwyo ymarferwyr yn rhaglen waith flynyddol y Bwrdd yn rheolaidd ac yn barhaus. | Bydd ymarferwyr yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cydnabod yn fwy am eu heffaith gadarnhaol ar blant ac oedolion sydd mewn perygl yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru. |
| **1.5 Trefniadau Rheoli y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol** | Adolygu swyddogaethau a chyfrifoldebau tîm y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol i sicrhau ei fod yn gallu ymateb i heriau'r dyfodol. | Swydd-ddisgrifiad a phwyslais adnewyddedig a diweddaredig. |
| **1.6 Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu** | Cryfhau cysylltiadau y Bwrdd â Chomisiynydd yr Heddlu a Throseddu. | Bydd meysydd o fudd ar y cyd a chydflaenoriaethau strategol yn cael eu datblygu a'u hymgorffori yn ffrydiau gwaith craidd a rhaglenni y Bwrdd. |

## 2. Mesur, dangos a deall effaith gwaith y Bwrdd hwn ar arferion proffesiynol, a sut mae hyn yn gwella canlyniadau i blant ac oedolion sydd mewn perygl.

| **Maes blaenoriaeth** | **Yr hyn yr ydym yn dymuno ei gyflawni** | **Beth yw'r dangosyddion canlyniadau?** |
|---|---|---|
| **2.1 Ymgorffori dealltwriaeth o Brofiadau Bywyd plant ac oedolion sydd mewn** | Dylai'r Bwrdd Gweithredol ystyried a chlywed astudiaethau achos a phrofiadau bywyd plant ac oedolion mewn perygl. | Bydd llais a phrofiadau bywyd plant ac oedolion sydd mewn perygl yn nodwedd graidd o holl gyfarfodydd y Bwrdd Gweithredol. |
| | Recriwtio a phenodi defnyddiwr gwasanaethau oedolion i'r Bwrdd Diogelu Gweithredol Rhanbarthol fel peilot 12 mis er mwyn rhoi | Bydd gwaith a chyfeiriad strategol y Bwrdd yn cael eu llywio'n uniongyrchol gan brofiadau bywyd defnyddwyr gwasanaethau. |

| | | |
|---|---|---|
| **perygl yn nhrafodaethau y Bwrdd** | persbectif profiad bywyd ar drafodaethau a phrosesau gwneud penderfyniadau y Bwrdd Gweithredol. | |
| | Asesu ein dulliau cyfredol o werthuso effaith ein gwaith ar ddefnyddwyr y gwasanaethau ac ystyried a ellir gwella’r rhain, er enghraifft, drwy grŵp ffocws ymarferwyr, neu drwy wahodd ymarferwyr i’r Bwrdd. | Bydd safbwyntiau ymarferwyr yn llywio penderfyniadau rhanbarthol a dilyniant ffrydiau gwaith. |
| | | Bydd gan y Bwrdd hwn well ddealltwriaeth o effaith ei waith ar blant ac oedolion sydd mewn perygl, gan lywio datblygiad y dyfodol ymhellach. |
| | Sefydlu prosesau i ddeall yn well ac asesu effaith gwaith rhanbarthol ar ymarferwyr. Gallai hyn gynnwys defnyddio arweinwyr diogelu amlasiantaeth (gan gynnwys Addysg) i ymgynghori â grwpiau ymarferwyr. | Bydd y Bwrdd hwn yn gallu deall a gwerthuso sut mae ffrydiau gwaith allweddol, e.e. hyfforddiant a datblygu polisïau, yn effeithio ar y gweithwyr proffesiynol sy’n gweithio ynddynt, gan gynnwys i ba raddau y maent yn gymwys i ddiogelu’n well blant ac oedolion sydd mewn perygl. |
| **2.2 Adolygiadau Arferion Plant ac Oedolion a Fforymau Proffesiynol Amlasiantaeth** | Archwilio cyfleoedd i ddatblygu modelau digwyddiadau dysgu mwy deinamig a chreadigol, gan gynnwys dysgu trochi, mewn amgylchiadau lle mae themâu rhanbarthol cyffredin yn dod i’r amlwg ar draws olion traed awdurdodau lleol, ac asiantaethau. | Bydd y rhai sy’n bresennol mewn digwyddiadau dysgu yn teimlo eu bod wedi eu grymuso’n fwy ac yn fwy hyderus i gyfrannu at adolygiadau. |
| | | Bydd ansawdd y ddysg a geir gan ymarferwyr yn cael ei wella. |
| | | Bydd gan wersi a ddysgir gyrhaeddiad ehangach ar draws ffiniau awdurdodau lleol ac asiantaethau. |
| | Ehangu’r hyn a gymhwysir yn sgil dysgu o adolygiadau sydd wedi eu cwblhau drwy rannu’r wybodaeth hon ag isgrwpiau a ffrydiau gwaith eraill perthnasol y Bwrdd. | Bydd cyrhaeddiad ehangach i’r argymhellion sy’n deillio o adolygiadau yn hwyluso ymateb rhanbarthol mwy cynhwysfawr i ddysg. |
| | Cyflwyno dull atgyfeirio ar gyfer ymarferion dysgu arferion da i’w hystyried gan yr Is-grŵp Adolygu Arferion. | Bydd prosesau ar waith i gefnogi’r gwaith o ymgymryd ag arferion da Fforwm Proffesiynol Amlasiantaeth, er mwyn dysgu o arferion gorau a rhannu arloesedd. |
| | Datblygu adnoddau rhanbarthol fel y gall Fforymau Proffesiynol Amlasiantaeth gefnogi aelodau’r grŵp cynllunio drwy’r broses. | Bydd aelodau’r grŵp cynllunio yn teimlo’n fwy hyderus a’u bod yn cael cefnogaeth well yn eu swyddogaeth. |
| | | Bydd Fforymau Proffesiynol Amlasiantaeth yn gwella o ran effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ganlyniad i gyfraniadau gan aelodau o’r grŵp cynllunio yn cael eu cryfhau ymhellach. |

| | | |
|---|---|---|
| **2.3 Rhannu Gwybodaeth** | Nodi cyfleoedd mewn polisïau a hyfforddiant rhanbarthol i gryfhau'r broses o rannu gwybodaeth mewn cysylltiad â phryderon diogelu. | Darperir ymatebion mwy arloesol i'r mater thematig o rannu gwybodaeth, a nodwyd fel thema gyson yn rhanbarthol ac yn genedlaethol. |
| **2.4 Atal Hunanladdiad** | Goruchwylio cynllun peilot 12 mis y broses Ymateb Cyflym rhanbarthol pan fo amheuaeth o hunanladdiad mewn cysylltiad â phlant ac oedolion. | Bydd ymatebion cefnogol i rwydweithiau o amgylch unigolyn sydd wedi cyflawni hunanladdiad yn cael eu cryfhau. |
| | Ar ddiwedd y cynllun peilot, gwerthuso effeithiolrwydd y model i lywio unrhyw ddatblygiad a gweithrediad yn y dyfodol. | |
| **2.5 Bwrdd Diogelu Iau Rhanbarthol (CADW)** | Gwerthuso effaith animeiddiad iau "The Do's and Don'ts of Caring", gan gynnwys i ba raddau y mae wedi ei wreiddio mewn hyfforddiant rhanbarthol i ymarferwyr sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc. | Bydd yr adnodd eithriadol a ddatblygwyd gan y Bwrdd Iau yn llywio gwaith ymarferwyr rhanbarthol gyda phlant a phobl ifanc. |
| | | Bydd CADW yn cael ymateb manwl ar sut y cafodd eu gwaith animeiddio ei ddatblygu a'i ddefnyddio mewn hyfforddiant diogelu. |
| | Gweithredu model cyfarfod hybrid sy'n hwyluso bwydo pob grŵp lleol yn effeithiol yn un endid Bwrdd rhanbarthol clir, gan ddarparu cyfleoedd aml i'r grŵp ymgynnull a mynd rhagddo â'r gwaith y cytunwyd arno. | Bydd rhaglen glir o gyfarfodydd a digwyddiadau ar waith sy'n caniatáu i CADW gyflawni a mynd rhagddo â'i waith mewn modd cydlynol ac effeithlon. |
| | Cynnal preswyl dau o bobl ifanc yn ystod y flwyddyn. | Fel partneriaeth ranbarthol, bydd CADW yn cael ei gryfhau drwy gynyddu'r cyfleoedd i ddod ynghyd. |

| **3. Ymgymryd â dadansoddiad systemig o'r perfformiad sefydliadol a newid i ddeall yn well ei effaith ar blant ac oedolion sydd mewn perygl.** | | |
|---|---|---|
| **Maes blaenoriaeth** | **Yr hyn yr ydym yn dymuno ei gyflawni** | **Beth yw'r dangosyddion canlyniadau?** |
| **3.1 Ymatebion Diogel a Rhagweithiol i Risg** | Datblygu Matrics Risg rhanbarthol neu offeryn Gwerthuso Newid sy'n darparu fframwaith i asesu newid o ran effaith hyn ar risg yn ymarferol. | Mwy o hyder mewn newid o ganlyniad i offer asesu cefnogol sy'n gysylltiedig ag ymarfer. |
| | | Adnabod risgiau posibl i ddiogelu arferion yn gynharach a dull ar gyfer nodi ac ymateb i hyn. |

| | | |
|---|---|---|
| **3.2 Grwpiau Gweithredol Lleol** | Adolygu'r broses o ffurfio agenda i sicrhau bod amser ac eitemau'n gytbwys yn gymesur, gan gwmpasu oedolion sydd mewn perygl yn ogystal â phlant. | Bydd agendâu'r Grŵp Gweithredol Lleol yn adlewyrchu'r pwyslais cyfartal ar ddiogelu plant ac oedolion sydd mewn perygl. |
| **3.3 Cofrestr Risgiau** | Datblygu cofrestr risg ranbarthol er mwyn uwchgyfeirio risg amlasiantaeth lefel uchel at y Bwrdd Gweithredol. | Bydd golwg y Bwrdd ar risgiau amlasiantaeth diogelu lefel uchel yn gwella. |
| **3.4 Fframwaith Perfformiad Rhanbarthol** | Gweithredu Fframwaith Perfformiad Rhanbarthol newydd y cytunwyd arno sy'n gyson â dulliau adrodd cenedlaethol ac sy'n adlewyrchu arferion sy'n gyson â Gweithdrefnau Diogelu Cymru. | Bydd data rhanbarthol yn cael eu cryfhau, fe'u hadroddir yn gyson, a byddant yn cyd-fynd â'r ddeddfwriaeth a'r arferion diweddaraf. |
| | | Bydd data a gwaith adrodd gwell yn dangos gweithgarwch ac effeithiolrwydd y Bwrdd yn well o ran diogelu plant ac oedolion sydd mewn perygl. |
| **3.5 Cymorth ac arferion gweithio ar ôl y pandemig** | Mewn amgylchedd ar ôl y pandemig, sicrhau bod arferion gwaith a diwylliannau yn ddiogel ac yn gymesur ag anghenion defnyddwyr y gwasanaeth. | Bydd gan y rheolwr ac ymarferwyr ganllawiau a pholisïau clir ar arferion diogelu diogel yng nghyd-destun rhyngwyneb wyneb yn wyneb a rhithwir a chyfathrebu â defnyddwyr gwasanaeth ac ar draws gwaith asiantaeth. |
| | Darparu canllawiau strategol i asiantaethau, ymarferwyr a rheolwyr ar arferion gwaith a diwylliannau diogel ac effeithiol. | |

| **4. Parhau i ddylanwadu ar yr agenda strategol genedlaethol er mwyn cefnogi gwelliannau mewn deddfwriaeth, canllawiau a pholisïau diogelu, gan gyfrannu atynt.** | | |
|---|---|---|
| **Maes blaenoriaeth** | **Yr hyn yr ydym yn dymuno ei gyflawni** | **Beth yw'r dangosyddion canlyniadau?** |
| **4.1 Adolygiad Diogelu Unedig Sengl** | Arwain datblygiad cenedlaethol a'r broses o weithredu Cynllun Dysgu a Datblygu Adolygiad Diogelu Unedig Sengl, mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru ac mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid cenedlaethol. | Bydd adnoddau, deunyddiau a hyfforddiant ar gael i gefnogi'r broses o weithredu'r Adolygiad Diogelu Unedig Sengl. |
| **4.2 Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol** | Gweithredu'r strategaeth ranbarthol a'r cynllun strategol newydd. | Bydd y blaenoriaethau strategol a'r ffrydiau gwaith sy'n cyd-fynd â nhw yn cael eu pennu a'u nodi'n glir ar draws y rhanbarth am y 5 mlynedd nesaf. |
| | Ceisio cynyddu nifer y troseddwyr a gyfeirir at raglen atal troseddwyr ledled y rhanbarth. | Diogelir dioddefwyr cam-drin domestig yn well o ganlyniad i well gwasanaethau i droseddwyr. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Bydd achosion o ailadrodd cam-drin domestig yn lleihau o ganlyniad i well gwasanaethau ac ymyrraeth. |
| **4.3 Cam-drin Plant yn Rhywiol** | Gwerthuso effaith gwaith rhanbarthol a wnaed o'i gymharu â CSA Action Plan ac adroddiad IICSA, ochr yn ochr â gwaith cenedlaethol parhaus. | Deellir effaith y gwaith hwn a gall lywio rhagor o waith yn y maes hwn. |
| **4.4 Dyletswydd Trais Difrifol** | Ystyried goblygiadau'r ddyletswydd trais difrifol newydd mewn partneriaeth â Chomisiynydd yr Heddlu a Throseddu, a sut y gall ddylanwadu ar waith diogelu amlasiantaeth ar gyfer plant ac oedolion sydd mewn perygl. | Bydd ffrydiau gwaith y Bwrdd yn cael eu llywio gan y dyletswyddau newydd sy'n gwella ymatebion partneriaeth ac amlasiantaeth i ddioddefwyr trais difrifol yn ein cymunedau. |
| **4.5 Addysg Ddewisol yn y Cartref** | Ystyried goblygiad y canllawiau statudol y disgwylir eu cyhoeddi ym mis Ebrill 2023, a sut y gall lywio gwaith rhanbarthol parhaus. | Bydd gan y Bwrdd hwn fesurau diogelu digonol a chymesur ar waith ar gyfer plant sy'n cael addysg ddewisol yn y cartref. |
| **4.6 Fframwaith Perfformiad Diogelu Cenedlaethol** | Parhau i weithio gyda'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol a Phrifysgol John Moores Lerpwl i lunio, datblygu, a dylanwadu ar fframwaith perfformiad diogelu cenedlaethol ar gyfer plant ac oedolion sydd mewn perygl. | Bydd model cenedlaethol y cytunwyd arno yn tanategu'r drefn o adrodd ar berfformiad rhanbarthol a bydd yn gyson â Byrddau eraill ledled Cymru. |
| **4.7 Marwolaethau Babanod y Gellir eu Hatal sy'n gysylltiedig â Chysgu Diogel** | Gweithio gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru i hyrwyddo'n well ymwybyddiaeth ymhlith rhieni ac ymarferwyr ar ffactorau risg uwch sy'n gysylltiedig ag arferion cysgu babanod sy'n ddiogel ac yn anniogel. | Deellir ffactorau risg sy'n gysylltiedig â chysgu diogel yn well, ac o ganlyniad, gellir gwella'r gefnogaeth a ddarperir i deuluoedd. |
| | Cynnull Grŵp Gorchwyl a Gorffen i ddatblygu offeryn neu fatrics asesu risgiau amlasiantaeth mewn cysylltiad â chysgu diogel. | |
| | Ystyried, drwy'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen hwn, ddulliau arloesol o gyfathrebu â rhieni am gysgu'n fwy diogel. | Bydd canllawiau cysgu diogel ar gael yn haws ac yn hygyrch, a bydd rhieni'n deall arferion cysgu diogel yn well. |

## Y GWARIANT BYRDDAU ARFAETHEDIG FEL Y BYDDWN YN CYFLAWNI EIN HAMCANION

<table>
<tr><td>Awdurdodau Lleol:<ul><li>Ceredigion 15%</li><li>Powys 25%</li><li>Sir Gaerfyrddin 35%</li><li>Sir Benfro 25%</li></ul></td><td>60%</td><td>Iechyd:<ul><li>Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda 75%</li><li>Bwrdd Iechyd Addysgu Powys 25%</li></ul></td><td>25%</td><td rowspan="2">Cyfanswm: 100%</td></tr>
<tr><td>Heddlu<ul><li>Heddlu Dyfed-Powys</li></ul></td><td>10%</td><td>Prawf:<ul><li>Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol</li></ul></td><td>5%</td></tr>
</table>

<table>
<tr><th colspan="2">Cyllideb Arfaethedig 2023–24</th><th></th><th colspan="2">Cyfraniadau Asiantaeth Arfaethedig 2023–24</th></tr>
<tr><td rowspan="2">Costau Staff a Chyflogau</td><td rowspan="2">162,590</td><td rowspan="9"></td><td>Cyngor Sir Ceredigion</td><td>17,840</td></tr>
<tr><td>Cyngor Sir Powys</td><td>29,647</td></tr>
<tr><td>Offer TG a meddalwedd</td><td>1,020</td><td>Cyngor Sir Caerfyrddin</td><td>41,400</td></tr>
<tr><td>Costau swyddfa, gweinyddu a recriwtio</td><td>10,608</td><td>Cyngor Sir Penfro</td><td>29,647</td></tr>
<tr><td>Teithio, lleoliadau a chyfathrebu</td><td>5,834</td><td>Heddlu Dyfed-Powys</td><td>19,747</td></tr>
<tr><td>Cyhoeddusrwydd, hyrwyddo a chyfieithiadau</td><td>7,140</td><td>Gwasanaeth Prawf Cymru</td><td>9,906</td></tr>
<tr><td rowspan="2">Comisiynu ymchwil, prosiectau a gomisiynir yn annibynnol a darparu hyfforddiant rhanbarthol pwrpasol yn allanol</td><td rowspan="2">10,302</td><td>Bwrdd Iechyd Hywel Dda</td><td>36,980</td></tr>
<tr><td>Bwrdd Iechyd Addysgu Powys</td><td>12,327</td></tr>
<tr><td>CYFANSWM</td><td>197,494</td><td>CYFANSWM</td><td>197,494</td></tr>
</table>

| Cronfeydd Prosiectau Llywodraeth Cymru—Fframwaith Dysgu a Datblygu yr Adolygiad Diogelu Unedig Sengl | |
|---|---|
| 2022/23 | 30,000 |
| 2023/24 | 70,000 |
| 2024/25 | 30,000 |
| **CYFANSWM DROS 3 BLYNEDD** | **130,000** |

## SUT RYDYM YN BWRIADU CYDWEITHREDU Â PHOBL NEU GYRFF ERAILL

Bydd Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru yn parhau i weithredu ar y cyd ac mewn partneriaeth â phob Bwrdd Diogelu arall yng Nghymru drwy fynychu cyfarfodydd Rheolwyr Busnes a Chydgysylltwyr Busnes rheolaidd a hwylusir gan Lywodraeth Cymru. Mae hyn yn cynnwys rhannu gwybodaeth ac arferion da yn rheolaidd ynghylch adolygiadau arferion, cydgysylltu themâu a chyfathrebiadau'r Wythnos Ddiogelu Genedlaethol, a digwyddiadau *ad hoc*/pwrpasol eraill a drefnir yn allanol. Yn benodol, cyflawnir cydweithrediad cryf gyda rhanddeiliaid allweddol amrywiol eleni wrth inni oruchwylio gweithrediad y Fframwaith Dysgu a Datblygu yr Adolygiad Diogelu Unedig Sengl.

Rydym wedi ymrwymo i barhau i lunio'r agenda a'r drafodaeth am ddiogelu cenedlaethol, a byddwn yn parhau i weithio gyda'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol a Llywodraeth Cymru ac i eirioli dros fframwaith cyfreithiol cryfach yng Nghymru ar gyfer plant sy'n cael addysg ddewisol yn y cartref, yn ogystal â'r angen am ymateb cenedlaethol a chyfannol ar y cyd i heriau diogelu'r gweithlu a brofir gan yr holl asiantaethau yng Nghymru.

## SUT RYDYM YN RHOI CYFLE I BOBL GYMRYD RHAN PAN FO GWAITH Y BWRDD YN EFFEITHIO ARNYNT

Mae Bwrdd CYSUR yn parhau i gomisiynu Gwasanaeth Eiriolaeth Annibynnol TGP er mwyn hwyluso ei Fwrdd Diogelu Iau Rhanbarthol CADW. Mae aelodau'r grŵp yn mynychu'r Bwrdd Gweithredol i drafod eu gwaith gydag aelodau. Mae'r grŵp yn cwrdd bedair gwaith y flwyddyn, a bydd dau ddigwyddiad preswyl eleni. Bydd y grŵp yn parhau i ddarparu cyngor a gwybodaeth i'r Bwrdd Gweithredol ar amrywiaeth o faterion diogelu sy'n bwysig ac yn berthnasol i bobl ifanc yn ystod y flwyddyn i ddod. Ar ôl datblygu a lansio adnodd rhagorol y llynedd sydd wedi ymgorffori llais plant a phobl ifanc yn gadarn mewn hyfforddiant diogelu ar gyfer ymarferwyr amlasiantaeth, bydd y Bwrdd yn gweithio gyda CADW eleni i werthuso'r gweithrediad hwn ac yn ceisio eu safbwyntiau ymhellach ar sut y gellir gwella arferion diogelu i blant yn ein rhanbarth sydd mewn perygl o gam-drin, esgeulustod neu niwed.

Yn ogystal â Bwrdd rhanbarthol CADW, mae gan bob un o'r pedair sir leol, sef Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Phowys, eu Grwpiau Diogelu Iau Lleol a'u partneriaethau eu hunain. Mae'r rhain yn cyd-fynd yn agos â thri allan o bedwar o'r Grwpiau Gweithredol Lleol lle mae aelodau iau yn mynd i gyfarfodydd Grŵp Gweithredol Lleol ac yn darparu gwybodaeth iddynt am faterion diogelu lleol ar gyfer pobl ifanc. Bydd hyn yn parhau yn y flwyddyn i ddod.

Gwneir gwaith ychwanegol i sicrhau bod y grŵp iau rhanbarthol presennol a'r aelodau'n cysylltu'n agosach â grwpiau a fforymau diogelu lleol fel yr amlinellir uchod, a bod eu safbwyntiau'n cynrychioli'r rhanbarth gyfan, a bydd hyn yn cael ei ddatblygu yn ystod y flwyddyn i ddod.

Mae angen rhagor o waith i ymgysylltu'n well ag oedolion sydd mewn perygl yng ngwaith y Bwrdd, a bydd hyn yn mynd rhagddo yn y flwyddyn i ddod drwy nifer o amcanion a nodwyd yn ein Cynllun Strategol Blynyddol. Bydd clywed lleisiau dioddefwyr cam-drin domestig hefyd yn nodwedd o'r gwaith i ddiweddaru strategaeth waith rhanbarthol Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn ystod y flwyddyn i ddod.

I gael rhagor o wybodaeth am Fwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru, ewch i'n gwefan: www.cysur.cymru

**SUT I ADRODD PRYDER**

Os ydych yn amau bod plentyn, person ifanc neu oedolyn mewn **perygl uniongyrchol o niwed ffoniwch 999** a siaradwch â'r **Heddlu**.

Os hoffech adrodd digwyddiad **nad yw'n fater brys** neu os oes gennych broblem neu ymholiad cyffredinol, gallwch ffonio'r Heddlu 24 awr y dydd ar y rhif ar gyfer materion nad ydynt yn argyfwng, sef **101**.

Os ydych chi'n poeni am ddiogelwch neu les plentyn, mae'n ddyletswydd arnoch i roi gwybod am hynny ar unwaith—cysylltwch â:

| |
|---|
| **SIR GAERFYRDDIN:**<br>Yn Ystod Oriau Swyddfa:<br>Tîm Atgyfeirio Canolog—Ffôn: 01554 742322<br>E-bost:CRTChildren@carmarthenshire.gov.uk<br>Y Tu Allan i Oriau Swyddfa: Ffôn: 01558 824283 a 0300 333 2222 |
| **CEREDIGION:**<br>Yn Ystod Oriau Swyddfa: Canolfan Gyswllt—Ffôn: 01545 574000,<br>E-bost:contact-socservs@ceredigion.gov.uk<br>Y Tu Allan i Oriau Swyddfa: Tim Dyletswydd Brys—Ffôn: 0845 6015392 |
| **SIR BENFRO:**<br>Yn Ystod Oriau Swyddfa: Tim Asesu—Ffôn: 01437 776444<br>E-bost: CCAT@pembrokeshire.gov.uk<br>Y Tu Allan i Oriau Swyddfa: Tim Dyletswydd Brys—Ffôn: 0300 333 2222 |
| **POWYS:**<br>Drws Ffrynt Powys:<br>Ffôn: 01597 827666<br>Y Tu Allan i Oriau Swyddfa: 0845 0544847<br>E-bost:csfrontdoor@powys.gov.uk |

Os ydych chi'n poeni am ddiogelwch neu les oedolyn, mae'n ddyletswydd arnoch i roi gwybod am hynny ar unwaith—cysylltwch â:

| |
|---|
| **SIR GAERFYRDDIN:**<br>Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth ar 0300 333 2222 neu gwnewch atgyfeiriad drwy ein gwefan www.sirgar.llyw.cymru<br>E-bost: iaa@deltawellbeing.org.uk |
| **CEREDIGION:**<br>Yn Ystod Oriau Swyddfa: Canolfan Gyswllt—Ffôn: 01545 574000<br>E-bost:contact-socservs@ceredigion.gov.uk<br>Y Tu Allan i Oriau Swyddfa: Tim Dyletswydd Brys—Ffôn: 0845 6015392 |
| **SIR BENFRO:**<br>Yn Ystod Oriau Swyddfa: Tîm ar Ddyletswydd—Ffôn: 01437 776056<br>E-bost: adult.protection.team@pembrokeshire.gov.uk<br>Y Tu Allan i Oriau Swyddfa: Tim Dyletswydd Brys—Ffôn: 0300 333 2222 |
| **POWYS:**<br>Cymorth:<br>Ffôn: 03456027050<br>E-bost: assist@powys.gov.uk |